Ymweliad â 'Help and Care' - 23/02/04

Ddydd Llun 23 Chwefror, bu i William Graham, Nigel Appleton, Cynghorydd Arbennig i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Graham Winter o Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau a'r Clerc ymweld â 'Help and Care' yn Bournemouth fel rhan o broses casglu gwybodaeth adolygiad polisi y Pwyllgor ynghylch Tai ar gyfer Pobl Hn. Dyma adroddiad ar yr ymweliad hwnnw ac ar y wybodaeth a gasglwyd.

Sefydlwyd 'Help and Care' gan y Cyngor lleol dros Wasanaethau Gwirfoddol ym 1985 fel prosiect tymor byr am dri mis. Roedd gan y prosiect gyllideb o £425 i ymchwilio i anghenion pobl hn. Darparwyd cyllid ychwanegol yn fuan ar ôl hynny ar gyfer cyflogi gweithiwr ymchwil a datblygu rhan-amser ar gontract treigl tri mis.

O'r dechrau'n deg datblygodd athroniaeth lle roedd y sefydliad yn gwneud pob ymdrech i gydweithio â phobl hn er mwyn pennu eu hanghenion, lleisio eu dyheadau a dechrau datblygu atebion. Ni sefydlwyd 'Help and Care' i ddatblygu a darparu ei wasanaethau ei hun.

Wrth i'r sefydliad ffynnu derbyniwyd cyllid mwy sefydlog a'i galluogodd i osod y sylfeini ar gyfer tyfiant yn y dyfodol.

Sefydlwyd Fforymau Lleol er mwyn galluogi pobl â diddordeb i gysylltu â'i gilydd, pennu bylchau mewn gwasanaethau a chreu gwasanaethau newydd. Datblygodd 'Help and Care' yn ystod y blynyddoedd cynnar drwy sicrhau nad oedd gwasanaethau newydd ond yn cael eu creu lle na ellid cymeradwyo gwasanaethau presennol neu lle roedd bwlch gwirioneddol mewn gwasanaethau. Ar ôl i'r angen am wasanaeth newydd gael ei gymeradwyo, aethpwyd ati i chwilio am adnoddau o fewn y Gymuned ac aeth pobl ati i ddatblygu atebion priodol. O ganlyniad datblygodd gwasanaethau fel cludiant gwirfoddol, cynlluniau gofal cymdogol a chlybiau dydd Sul mewn gwahanol gymunedau o fewn ardal Bournemouth.

Yn sgîl cysylltiadau 'Help and Care' â chymunedau lleol, daeth yn ganolbwynt ar gyfer Fforwm Datblygu Cymunedol newydd i'r Henoed a oedd yn cynnwys cymuned gofalgar y dref, gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol.

Aeth y sefydliad o nerth i nerth, gan brynu ac adnewyddu ei adeilad ei hun. Erbyn 1998 roedd 'Help and Care' yn cyflogi pymtheg aelod o staff ac roedd ganddo drosiant blynyddol o oddeutu traean miliwn. Ei drosiant blynyddol ar hyn o bryd yw £1.3 miliwn.

Mae agendâu niferus a sawl pwyslais newydd yn parhau i ddatblygu. Cydnabu 'Help and Care' na fydd

ond dull cyfannol o fodloni anghenion pobl hn yn sicrhau cyd-agendâu rhwng Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol. Ledled Dorset ac yn genedlaethol cydnabyddir y sefydliad fel enghraifft arbennig o arferion da sy'n cynnig cyfleoedd i bobl hn gymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori ac i sicrhau y bodlonir eu hanghenion. Mae ffynonellau lleol a chenedlaethol yn darparu cyllid er mwyn ehangu gwasanaethau, datblygu syniadau newydd a mynd i'r afael â'r agenda y mae pobl hn wedi'i phennu.

Ceir crynodeb o waith y sefydliad yn Atodiad 1.

At ddiben ein hadolygiad polisi, efallai yr hoffai'r Aelodau ystyried y pwyntiau canlynol :-

- Swyddogaeth allweddol y sector gwirfoddol o ran darparu a datblygu gwasanaethau, datblygu a chyflwyno polisïau a chydgysylltu gwasanaethau rhwng darparwyr statudol
- Yr anawsterau y mae'r sector gwirfoddol yn eu hwynebu o ran datblygu gwasanaethau gan fod y rhan fwyaf o gyllid yn seiliedig ar gontractau a chan fod cyllid craidd yn gyfyngedig iawn
- Yr angen i gynnwys grwpiau o gleintiaid wrth bennu meysydd sy'n peri pryder, cynnig atebion, cynllunio'r gwaith datblygu a chyflwyno'r canlyniad.
- Yr angen i beidio â bod yn hunanfodlon drwy fonitro ac adolygu'n rheolaidd - mae 'Help and Care' yn adolygu ei wasanaethau bob blwyddyn ac mae dau adolygiad annibynnol wedi'u cynnal o'i weithgareddau a'i ddyheadau.
- Posibilrwydd cynnal archwiliadau anariannol. Mae 'Help and Care' wrthi'n datblygu mynegeion i'w galluogi i asesu eu perfformiad ar sail targedau anariannol.